# Anifeiliaid Anwes Nadolig

**PAWB:**
**Anifeiliaid anwes,**
**Rhai â ffwr a rhai â phlu,**
**Rhai yn fach a rhai yn fawr,**
**Yn rhan o'n teulu ni**

**SION CORN (siarad/canu)**
**Dwi'n hoffi mynd am dro a dwi'n siglo fy nghwt,**
**Dwi'n fflwfflyd ac yn annwyl ac yn cysgu mewn cwt.**
**"Wff wff" yw fy nghri**
**Ond pwy ydw i?**

**PAWB**
**Ai ci bach wyt ti?**
**Ai ci bach wyt ti?**

**SION CORN**
**Ie, ci bach ydw i**
**A dwi'n ffrind i ti**

**PAWB:**
**Anifeiliaid anwes,**
**Rhai â ffwr a rhai â phlu,**
**Rhai yn fach a rhai yn fawr,**
**Yn rhan o'n teulu ni**

**SION CORN (siarad/canu)**
**Dwi'n hoffi canu cân wrth i mi hedfan fry,**
**Dwi'n fychan a thwt ac yn bluog wir i ti**
**"Twît twît" yw fy nghri**
**Ond pwy ydw i?**

**PAWB**
**Ai deryn wyt ti?**
**Ai deryn wyt ti?**

**SION CORN**
**Ie, deryn ydw i,**
**A dwi'n ffrind i ti!**

**PAWB:**
**Anifeiliaid anwes,**
**Rhai â ffwr a rhai â phlu,**
**Rhai yn fach a rhai yn fawr,**
**Yn rhan o'n teulu ni**

**© 2025 S4C**